OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 566

# Rheoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017

## RHAN 2

Ceisiadau a chynigion i ddiwygio'r Cofrestrau

### Y cyfrifoldeb dros ddyfarnu ceisiadau a chynigion

**15.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2)—

(a) rhaid i gais a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn gael ei ddyfarnu gan yr awdurdod cofrestru sy'n gyfrifol am y gofrestr lle cofnodir y tir y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef, neu awdurdod cofrestru sydd â'r pŵer i ddyfarnu ceisiadau ar ran awdurdod cofrestru o'r fath; a

(b) rhaid i awdurdod cofrestru sydd wedi gwneud cynnig yn unol â'r Rheoliadau hyn ddyfarnu pa un ai i ddiwygio ei gofrestrau yn unol â'r cynnig ai peidio.

(2) Yn yr achosion a bennir ym mharagraff (3), rhaid i awdurdod cofrestru gyfeirio at y person penodedig er mwyn iddo ddyfarnu—

(a) unrhyw gais a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn; a

(b) unrhyw gynnig a wneir gan yr awdurdod cofrestru yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(3) Yr achosion y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) uchod yw achosion pan fo gan yr awdurdod cofrestru fuddiant yng nghanlyniad y cais neu'r cynnig i'r graddau ei bod yn annhebygol y bydd hyder yng ngallu'r awdurdod i'w ddyfarnu'n ddiduedd, neu pan fo person sydd â buddiant cyfreithiol yn y tir sy'n destun cais neu gynnig (neu rywun sy'n gweithredu ar ran person o'r fath) wedi gwneud (a heb dynnu'n ôl wedi hynny) sylwadau sy'n gyfystyr â gwrthwynebiad mewn cysylltiad â'r cais neu'r cynnig, ac—

(a) y gwneir y cais neu'r cynnig o dan adran 19(4) o Ddeddf 2006, a'i fod yn ceisio—

(i) ychwanegu tir at gofrestr, neu dynnu tir oddi ar gofrestr; neu

(ii) cywiro gwall o ran meintoliad hawliau comin mewn cofrestr; neu

(b) y gwneir y cais neu'r cynnig o dan unrhyw un o baragraffau 2 i 9 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006.

(4) Pan fo'r awdurdod cofrestru yn cyfeirio cais neu gynnig at berson penodedig i'w ddyfarnu—

(a) rhaid i'r awdurdod cofrestru roi gwybod i'r ceisydd bod y cais wedi ei gyfeirio at berson awdurdodedig i'w ddyfarnu;

(b) rhaid i'r awdurdod cofrestru anfon yr holl ddeunyddiau yn ei feddiant sy'n berthnasol i'r dyfarniad ynghylch y cais neu'r cynnig at y person penodedig;

(c) yn achos cais, caiff y person penodedig gyfarwyddo'r ceisydd i ddarparu unrhyw wybodaeth neu ddogfennau pellach sy'n angenrheidiol i alluogi i'r cais gael ei ddyfarnu; a

(d) caiff y person penodedig gyfarwyddo'r awdurdod cofrestru i ddarparu unrhyw wybodaeth neu ddogfennau pellach sy'n angenrheidiol i alluogi i'r cais neu'r cynnig gael ei ddyfarnu.

(5) Caiff y person penodedig bennu amser ar gyfer cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan y rheoliad hwn.

(6) Os yw'r ceisydd yn methu â chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan y rheoliad hwn neu, os yw'n gymwys, yn methu â chydymffurfio o fewn yr amser a bennwyd, caiff y person penodedig drin y cais fel petai wedi ei ollwng.